**<u>Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD</u>** **STD 05-01**

**Agenda** *Cyfarfod Chwarterol*

**Dyddiad:** 12 Rhagfyr 2001
**Amser:** 9:30am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd – 5 munud**

**Eitem lafar**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod, yn amlinellu ei ddiben yn gryno, ac yn galw am unrhyw ymddiheuriadau. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i gadarnhau fod cofnodion y cyfarfod diwethaf ar ddydd Mercher 17 Hydref yn gofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

**Eitem 2: Newyddion y chwarter ac adolygiad o'r camau a gododd o STD 04-01 – 5 munud**

**Papur:** Papur a baratowyd gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD 05-01(01)

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r camau a gymerwyd a'r gwaith sydd ar y gweill.

**Eitem 3: Y newyddion diweddaraf ynghylch y Gofrestr o Fuddiannau – 5 munud**

**Eitem lafar**

**Eitem 4: Y Seiri Rhyddion – 30 munud**

**Papurau:** Papur a baratowyd gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD 05-01(02)

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y penderfyniadau a wnaed gan Lys Hawliau Dynol Ewrop, a goblygiadau hyn i'r Cynulliad. Darparwyd cyfieithiad 'answyddogol' o drawsgrifiad y Llys gan David Lambert. Gwahoddir Mr Hamill a Mr Bevan o'r Seiri Rhyddion i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r Llys.

**Eitem 5: Buddiannau Anuniongyrchol – 15 munud**

**Papur:** Fersiwn ddrafft o Adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad - STD 05-01(03)
Detholiad o Gofnodion y Pwyllgor Busnes - STD 05-01(04)

Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar ei adroddiad drafft yn sgil sylwadau'r Pwyllgor Busnes ar y cynigion.

**Eitem 6: Adolygiad o’r Gweithdrefnau ar gyfer Safonau Ymddygiad: Penodi Ymgynghorydd Arbenigol – 15 munud**

**Eitem lafar** – Bydd y Clerc yn darparu’r newyddion diweddaraf ynghylch penodi Ymgynghorydd Arbenigol.

**Eitem 7: Unrhyw fusnes arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

Mae trefniadau dros dro wedi'u gwneud ar gyfer cynnal cyfarfodydd ddydd Mercher 16 Ionawr, dydd Mercher 13 Chwefror a dydd Mercher 20 Mawrth 2002. Gwahoddir aelodau i gytuno ar y dyddiad mwyaf addas ar gyfer cynnal y cyfarfod nesaf.

***EGWYL – YNA BYDD Y PWYLLGOR YN MYND I SESIWN GAEËDIG***

**Eitem 8: CO15**

Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried cyngor yr Ymgynghorydd Annibynnol ac i benderfynu ar ba gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl, yng nghyswllt yr achos sydd o’u blaenau.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**